# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

## RHAN 1

ATGYFNERTHU DEMOCRATIAETH LEOL

## PENNOD 1

HYBU A CHEFNOGI AELODAETH O AWDURDODAU LLEOL

*Cefnogi aelodaeth*

### [F1]4 Mynychu cyfarfodydd o bell

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**

**F1** A. 4 wedi ei hepgor (1.5.2021) yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (asc 1), a. 175(7), **Atod. 4 para. 23(2)**; O.S. 2021/354, ergl. 2(c)

### 5 Adroddiadau blynyddol gan aelodau o awdurdod lleol

(1) Rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau—

(a) i bob person sy'n aelod o'r awdurdod lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r awdurdod yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi,

(b) i bob person sy'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r weithrediaeth yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi, ac

(c) i'r awdurdod gyhoeddi pob adroddiad blynyddol sy'n cael ei lunio gan ei aelodau a chan aelodau ei weithrediaeth.

(2) Caiff y trefniadau gynnwys amodau o ran cynnwys adroddiad y mae'n rhaid iddynt gael eu bodloni gan y person sydd yn ei lunio.

(3) Rhaid i awdurdod lleol roi cyhoeddusrwydd i'w drefniadau.

(4) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 5 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

## 6 Amseru cyfarfodydd cyngor

(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau ynghylch amser cynnal cyfarfodydd awdurdod lleol.

(2) Rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a roddir o dan is-adran (1).

(3) Yn is-adran (1), ystyr “cyfarfodydd awdurdod lleol” yw—

(a) cyfarfodydd yr awdurdod lleol;

(b) cyfarfodydd unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor i'r awdurdod.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 6 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

## 7 Hyfforddi a datblygu aelodau o awdurdod lleol

(1) Rhaid i awdurdod lleol sicrhau y darperir cyfleoedd hyfforddi a datblygu rhesymol i'w aelodau.

(2) Rhaid i awdurdod lleol sicrhau bod adolygiad blynyddol o anghenion hyfforddi a datblygu'r aelod ar gael i bob aelod o'r awdurdod.

(3) Rhaid i'r adolygiad gynnwys cyfle am gyfweliad gyda pherson sydd, ym marn yr awdurdod, yn briodol gymwys i roi cyngor am anghenion hyfforddi a datblygu aelod o awdurdod lleol.

(4) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.

(5) Yn achos awdurdod sy'n gweithredu gweithrediaeth arweinydd a chabinet (Cymru), nid yw cyfeiriad yn yr adran hon at aelod o awdurdod lleol yn cynnwys yr arweinydd gweithrediaeth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 7 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Croes Bennawd: Cefnogi aelodaeth.